

❖ **BETH AM HEROD?**

Gad i ni chwilio amdanat eleni a chael cip ar dy wir ogoniant Di yn ystod dyddiau'r wyl. Amen.

**Emyn:** *Caneuon Ffydd* 464, 'Ar gyfer heddiw'r bore'n faban bach'

**Darllen:** Mathew 2:1–15

**Emyn:** *Caneuon Ffydd* 453, 'O ddirgelwch mawr duwioldeb, Duw'n natur dyn'

**Gweddi:** A dyma ni ar drothwy Gŵyl y Geni eto, yr un hen garolau, yr un hen arferion, yr un hen ddarlleniadau am ddigwyddiadau fu. Mae'n gweledigaeth yn pylu pan fyddwn yn siopa'n brysur, a'n hatgofion am ystyr Bethlehem a'r preseb gynt yn cael eu disodli gan brysurdeb Gŵyl Banc a Gŵyl Barclaycard ola'r flwyddyn. Ond eleni Arglwydd, ynghanol ein prysurdeb gad i ni aros ac edrych am wir ystyr y digwyddiadau rhyfedd a fu yn Jwdea yr holl flynyddoedd hynny yn ôl. Gad i ni chwilio amdanat eleni ac yn lle darganfod babi plastig, ddod o hyd i lachawdwr ein heneidiau, yr unig un sy'n gallu ateb holl broblemau'r ddynoliaeth gyfan. Gad i ni felly ddilyn y seren a darganfod anrheg well na'r holl rai y gallwn ni eu cario at droed y goeden. Amen.

**Emyn:** *Caneuon Ffydd* 448, 'Wele'n gwawrio ddydd i'w gofio'

**Myfyrdod:** Mathew 2:8 ...ymofynnwch yn fanwl am y mab bychan... (*BWM*)

Geiriau Herod yw'r rhain, ac yn aml iawn rydym ni yn eu darllen yn ddifeddwl hollol ac yn sgipio drostynt oherwydd mae ein meddyliau ar y Doethion dri a'r seren ryfedd a aeth ac a safodd, y camelod neu eiriau proffwydoliaeth Micha – a thithau Bethlehem, tir Jwda ac yn y blaen. Ond heddiw rydym ni am edrych ychydig ar bethau o ongl wahanol. Beth wyddom ni am Herod – yn wir pa Herod oedd o, yr un mawr neu'r un llai a ddaeth ar ei ôl, a phwy oedd yr archoffeiriaid ac ysgrifenyddion y bobl, a beth oedden nhw'n ei gredu?

Herod i ddechrau te. (A'r Mawr ydoedd.) Sylwch nad aeth y Doethion ato ef yn syth i'w blas. Na, Herod sy'n anfon amdanynt hwy ar ôl iddo glywed y si am eu cwestiwn ysgubol – 'Pa le y mae'r hwn a anwyd yn Frenin yr Iddewon?' Sylwch hefyd nad 'Pa le mae yr hwn SYDD I'W ENI?' yw eu cwestiwn i bobl Jerwsalem. Roedd y Doethion wedi darllen yr arwyddion ac wedi dod i'r casgliad bod Brenin Jwdea – ac fe wydden nhw fel pawb yn yr hen fyd mai Herod oedd ei enw – eisoes wedi marw a bod ei olynnydd newydd wedi cyrraedd. Wrth gwrs, cafodd Herod ychydig o sioc o glywed y fath gwestiwn ac yntau yn greadur mor paranoid i ddechrau beth bynnag. Fe glywn ni wedyn fod Herod wedi styrbio'n llwyr (efe a gyffrowyd) a'r gair Groeg a ddefnyddir fan hyn yw tarach – gair sy'n golygu yr hyn fyddech chi yn ei wneud wrth droi te gyda llwy, stirred up yw ei ystyr wreiddiol – fel y byddai unrhyw un wrth gwrs o glywed y newyddion syfrdanol ei fod ef ei hun wedi marw a'i olynnydd yn barod i gymryd ei le. Ond i ddod yn ôl at y cwestiwn gwreiddiol, sef pwy oedd y brenin oedd yn teimlo ei fod yn cael ei fygwth gan enedigaeth baban. Daeth Herod i'w deyrnas pan oedd yn 15 oed – Galilea oedd y fan a lywodraethai bryd hynny, a than awdurdod Rhufain fe'i hapwyntiwyd ef a'i frawd Phasael i fod yn detrarchiaid Jwdea. Roedd hyn i gyd yn digwydd yng nghyfnod Anthony a Cleopatra pan oedd gwleidyddiaeth Rhufain yn ddiddorol a dweud y lleiaf, ac wedi brwydr fawr Actium, aeth Herod i ymweld ag Octavian yn Rhodes – i lyfu ac ennill ffafr siŵr o fod. Doedd Herod ddim yn ddyn teulu o bell ffordd, a lladdodd nifer dda o'i gig a gwaed ef ei hunan er mwyn cadw mewn grym, felly doedd bechgyn dwyflwydd oed ardal Bethlehem yn cyfrif dim iddo. Yn union cyn iddo farw gorchmynnodd ladd pob penteulu yn Jwdea er mwyn i bawb fod â rhywbeth i alaru amdano pan fyddai ef ei hunan yn ymadael â'r fuchedd hon – ac felly y bu. Na, doedd Herod ddim yn ddyn nac yn frenin neis na charedig.

A beth am yr archoffeiriaid ac ysgrifenyddion y bobl tybed? Pwy oedden nhw? Yr Archoffeiriaid i ddechrau. Dyma'r arweinyddion crefyddol, yr hyn ystyriem ni heddiw fel Archesgob Caergaint neu'r Pab, y Prif Rabbi neu Fullah Mwslemaidd. Dyma ddynion oedd yn hyddysg iawn yn y grefydd Iddewig, y gyfraith a'r proffwydi – cofiwech eu hateb i Herod pan ofynnodd yntau ei gwestiwn ym mhle y byddai'r Meseia yn cael ei eni – maen nhw'n dyfynnu'r adnod iddo yn ei chrynswth. (Oedden nhw'n ei chredu sy'n gwestiwn arall wrth gwrs – ond fe allen nhw ateb posau crefyddol yn hollol ddidrafferth. Erbyn dyddiau Iesu roedd yr Archoffeiriaid yn perthyn i blaid y Sadwceaid, a doedd y rheiny'n credu dim llawer o ddim er eu bod yn

gwybod llawer.) Roedd yr Archoffeiriaid bob amser yn dod o deulu ac o lwyth Lefi, mab Aaron, ac roedd ganddynt bedigri grefyddol heb ei hail. Roedd yr ysgrifenyddion hefyd yn gwybod eu stwff. Eu swydd hwy, eu gwaith a'u galwedigaeth a'u gyrfa lwyr oedd astudio'r gyfraith ac roedd yn cymryd blynyddoedd o brentisiaeth iddynt i ddysgu popeth yn drylwyr. Doedd y rhain ddim yn gorfod perthyn i lwyth Lefi, gallai unrhyw fachgen deallus ac addawol gael ei addysgu – ar draul y synagog leol yn amser Iesu – i fod yn ysgrifennydd crefyddol. Felly roedd y swyddi o Archoffeiriad ac ysgrifennydd yn swyddi da. Roedd ymennydd da a gallu a mantais cael eich geni i deulu dewisedig yn rheoli'r swyddi.

Tybed beth wnaeth Herod Fawr o gwestiwn y Doethion? Mae'n ddigon sicr ei fod wedi clywed yr hanesion am y Meseia hir-ddisgwylidig, ond mae'n ddigon tebygol hefyd nad oedd ef ei hunan yn credu yn y fath nonsens coel-grefyddol. Gwleidydd oedd Herod, a'r hyn a'i cynhyrfodd oedd cael ar ddeall bod rhyw fabi peryglus am ddwyn ei frenhiniaeth. Felly, ar ôl iddo gael ei ateb gan ei ddynion dysgedig, mae'n galw'r Doethion ato ac yn eu holi yn fanwl. Pryd gwelwch nhw'r seren gyntaf? Yna, mae'n eu hanfon i Fethlehem i chwilio am y babi gyda'r gorchymyn pendant i ddod yn ôl ato a dweud lle'r oedd y brenin. Wyddom ni ddim beth oedd ymateb y Doethion i'w gais – 'Mynegwch i mi, fel y gallwyf finnau ddyfod a'i addoli ef,' ond mae'n ymddangos eu bod yn ei drystio hyd nes i Dduw eu rhybuddio mewn breuddwyd i fynd adref heb alw yn Jerwsalem gyda'u newyddion.

Wel, dyna ddigon o gefndir. Beth wnawn ni o'r adnod felly? 'Ymfynnwch yn fanwl am y mab bychan.' 'Ewch chi, chwiliwch chi os liciwch chi, ac fe ddweda' i wrthoch chi lle i fynd,' dyna yw ystyr geiriau Herod wrth y Doethion. Yr hyn sy'n ddiddorol dros ben yw sylwi na wnaeth Herod na'r Archoffeiriaid na'r Ysgrifenyddion drafferthu cerdded i lawr y ffordd o Jerwsalem i Fethlehem Effrata, er mai dim ond pum milltir o daith oedd hi! Pam tybed? Am nad oedden nhw, siŵr o fod, yn credu dim ar y proffwydoliaethau. Wedi eu magu yn eu sŵn, wedi eu trafod fel ymarferion crefyddol ac ymenyddol a rhesymol, ond heb erioed gredu gair ohonynt. Na, mae'r Doethion sydd wedi teithio rhai cannoedd o filltiroedd (o leiaf) eisoes yn gorfod teithio'r pum milltir olaf heb gwmni'r Iddewon selog oedd yn berchen ar yr wybodaeth ers canrifoedd, ond oedd wedi ei llwyr diystyru. Paganiaid, Cenedl-ddynion, dilynwyr y grefydd Zoroaster sy'n sylweddoli gwerth y baban yn y preseb, ac nid ei bobl a'i genedl ef ei hunan.

Fe fyddwn ni eleni yn ein capeli a'n festrioedd yn cofio'r digwyddiad rhyfedd a fu dros ddwy fil o flynyddoedd yn ôl. Rydym ni i gyd yn gwybod y geiriau ar ein cof bron ac yn adnabod trefn yr hen storïau. Ond tybed ydym ni yn eu credu mewn gwirionedd? Ai ysgrifenyddion y bobl ac Archoffeiriaid neu Frenin di-gred fyddwn ni eleni eto, neu tybed a ydym ni yn gweld seren gobaith yn arwain ac yn arwyddo gwyrth i ni? Fe ddilynodd y Doethion gyfarwyddiadau'r gwleidydd didrugaredd a darganfod rhyfeddod diddarfod yn y gwair. Oni fyddai'n beth da eleni pe baem ninnau i gyd yn ein capeli yn cael rhyw ddwy owns yr un o weledigaeth y Doethion, yn gweld gwir ystyr yr ŵyl ac yn ymfyn yn fanwl am y mab bychan. Efallai'n wir mai Herod biau'r geiriau, ond yn ddiarwybod iddo siŵr o fod dyna'r peth callaf ddywedodd hwnnw erioed. Gadewch i ninnau ymfyn, sylweddoli, dilyn ac adnabod yr un a anfonodd Duw i'n gwaredu. Yn enw hwnnw, Amen.

**Emyn:** *Caneuon Ffydd* 365, 'Caed baban bach mewn preseb drosom ni'

**Y Fendith**

**Einir Jones**